# NODIADAU'R MODIWL

**Teitl y Modiwl**
Dylai'r teitl adlewyrchu cynnwys y modiwl. Bydd y teitl yn ymddangos ar drawsgrifiad y myfyriwr neu'r HEAR, felly dylai fod â rhywfaint o ystyr i gyflogwr. Dylid osgoi teitlau fel 'Marchnata 2' neu 'Chwaraeon 1' (os yn bosib). Ni fydd system y brifysgol yn caniatáu i deitlau fod yn hwy na 30 nod gyda bylchau rhyngddynt

**Cod y Modiwl**
Defnyddir codau modiwl er mwyn gallu adnabod pob modiwl yn hawdd ar systemau'r brifysgol ac yn y blwyddlyfr ar-lein. Bydd codau modiwl bob amser ar ffurf AAA-1111. Mae'r gyntaf o'r tair **llythyren** yn dynodi ysgol y modiwl, ac mae'r drydedd lythyren yn nodi a yw'n cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg (W), y Saesneg (E) neu'n ddwyieithog (B). Bydd y rhif cyntaf yn nodi'r flwyddyn y dysgir y modiwl.
*e.e. mae BSC-2005 yn fodiwl ail flwyddyn yn y Gwyddorau Biolegol a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg.*

**Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**
Nid oes eu hangen ar gyfer mwyafrif y modiwlau.

| |
|---|
| RHAID SICRHAU BOD UNRHYW FODIWL SY'N CYNNWYS CYSYLLTIAD HEB ORUCHWYLIAETH RHWNG STAFF/MYFYRWYR Â PHOBL O DAN 18 NEU OEDOLION BREGUS YN CYNNWYS DARPARIAETH I WNEUD GWIRIADAU DBS |

**Credydau**
Gwerth addysgol sy'n rhoi mesuriad o ddeilliannau dysgu y gellir eu cyflawni mewn oriau tybiannol ar lefel benodol yw credydau. Mae cyfanswm y credyd a neilltuir yn seiliedig ar amcangyfrif o'r amser tybiannol y byddai'r myfyriwr yn ei dreulio er mwyn cyflawni'r deilliannau dysgu a nodir. Mae pob credyd yn gyfwerth â 10 awr dysgu tybiannol (amser cyswllt ynghyd ag amser astudio personol). Felly, byddai modiwl 10 credyd yn cyfateb i 100 o oriau dysgu. Mae credydau fel arfer mewn lluosrifau o 10, ond mae gan y brifysgol fodiwlau 15 credyd.

| |
|---|
| ANGEN SICRHAU BOD NIFER y CREDYDAU YN CYD-FYND Â'R ORIAU DYSGU TYBIANNOL YM MLWCH 6 (AMSER CYSWLLT + ASTUDIAETH ANNIBYNNOL). |

**Semestrau**
Mae hyn i ddangos dros ba gyfnod amser y bydd y modiwl yn cael ei gyflwyno. Ceir 12 wythnos mewn semester.

**Oriau Dysgu Tybiannol / Strategaeth Addysgu a Dysgu**
Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o sut y cyflawnir yr oriau dysgu tybiannol. Dylai cyfanswm yr oriau cyswllt a'r amser astudio annibynnol gyfateb i nifer y credydau yn y modiwl. Dylid rhannu'r oriau cyswllt yn yr adran 'patrwm y dysgu' a nodi sut y cyflwynir y rhain yn yr adran 'strategaeth addysgu'.

e.e. mae modiwl 20 credyd yn golygu 48 awr o amser cyswllt a 152 awr o astudiaeth annibynnol.
Byddem yn disgwyl gweld y canlynol mewn modiwlau newydd:

**Strategaeth Addysgu**

| | | |
|---|---|---|
| Darlithoedd: | 2 awr yr wythnos am 12 wythnos = 24 awr | |
| Seminarau: | 1 awr yr wythnos am 12 wythnos = 12 awr | |
| Ymweliad allanol: | 4 x ymweliad 3 awr | = 12 awr |
| Astudio annibynnol: = 152 awr | | |

Sylwer: efallai na fydd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer modiwlau cyfredol.

**Lefel**

Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn sicrhau bod gofynion gwahanol wrth i fyfyrwyr gyflawni deilliant dysgu. Byddech yn disgwyl i ofynion modiwl trydedd flwyddyn fod yn llawer mwy na gofynion modiwl blwyddyn gyntaf. Mynegir y gofynion hyn ar ffurf lefelau, ac mae tair lefel i radd israddedig.

Mae **Lefel 4** yn cyfateb i'r **flwyddyn gyntaf:** bydd cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar y lefel hon yn arwain at Dystysgrif Addysg Uwch
Mae **Lefel 5** yn cyfateb i'r **ail flwyddyn:** gall cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar y lefel hon arwain at Ddiploma Addysg Uwch neu radd sylfaen
Mae **Lefel 6** yn cyfateb i'r **drydedd flwyddyn**: gall cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar y lefel hon arwain at radd Baglor gydag Anrhydedd.

**Rhagofynion**
Mae rhagofynion yn fodiwlau sy'n rhaid eu cwblhau cyn dechrau'r modiwl dan sylw.

e.e. Er enghraifft, gallech ddisgwyl i fodiwl Blwyddyn 1 gael ei restru yn yr adran hon os oeddech yn ystyried modiwl Blwyddyn 2.

**Cydofynion**
Mae cydofynion yn fodiwlau sy'n rhaid eu hastudio ar yr un pryd â'r modiwl dan sylw.

**Craidd/Gorfodol/Dewisol**
Dylid nodi'r modiwl craidd, gorfodol neu ddewisol ym manyleb y rhaglen.
**Craidd:** Modiwl sy'n rhaid i fyfyriwr ei gwblhau'n llwyddiannus er mwyn symud ymlaen i flwyddyn nesaf y cwrs (40% i fyfyriwr israddedig a 50% i fyfyriwr ôl-radd).
**Gorfodol:** Modiwl sy'n rhaid i fyfyriwr ei astudio, ond nid o reidrwydd ei gwblhau'n llwyddiannus. Gall myfyrwyr gyfadfer dilyniant 40 credyd dyfarniad 20 credyd gyda marciau dim is na 30% i fyfyriwr israddedig a 40% i fyfyriwr ôl-radd)
**Dewisol:** Modiwl sy'n ddewisol i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglen benodol.

**Disgrifiad o'r Modiwl**
Dylai'r adran hon gynnwys disgrifiad cyffredinol o'r modiwl ar ffurf paragraff byr. Dylid ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n rhoi crynodeb cyffredinol i fyfyrwyr o nodau a chynnwys y modiwl.

**Deilliannau Dysgu**
Datganiadau yw deilliannau dysgu o'r hyn y gellir disgwyl i fyfyrwyr ei wybod, ei ddeall a'i wneud o ganlyniad i gwblhau modiwl yn llwyddiannus. Dylai pob deilliant dysgu ddechrau gyda berf ac adlewyrchu lefel y dysgu a'r deall.

Gallai modiwlau lefel 4 (blwyddyn gyntaf) gyflwyno gwybodaeth a chysyniadau tra gellid disgwyl i fyfyrwyr sy'n cwblhau modiwlau ar lefel 6 (trydedd flwyddyn) werthuso, beirniadu neu drafod pynciau ar lefel uwch. Rhaid i ddeilliant dysgu fod yn *fesuradwy* ac yn gyraeddadwy trwy asesiad cysylltiedig.

**Crynodeb o gynnwys y cwrs**
Rhestr fanwl o gynnwys y cwrs, sy'n crynhoi'r prif themâu yw'r adran hon fel rheol.

**Dulliau Asesu**

Mae dau fath o asesiad:

- crynodol (sy'n cyfrannu at farc y modiwl)
- ffurfiannol (nad yw'n cyfrannu at farc y modiwl). Dim ond manylion y dulliau asesu crynodol dylid eu cynnwys yma.

RHAID SICRHAU BOD Y CANLYNOL YN CAEL EI GYNNWYS:

a. Math o asesiad, e.e. arholiad, aseiniad ysgrifenedig, cyflwyniad grŵp ac ati.
b. Hyd yr asesiad, e.e. 3000 o eiriau neu arholiad 2 awr.
c. Cysylltiad rhwng y deilliannau dysgu a'r dulliau asesu. **Rhaid i bob asesiad restru pa ddeilliannau dysgu sy'n cael eu hasesu.**

SYLWER BOD GAN Y BRIFYSGOL LWYTH ASESU UCHAF FESUL MODIWL YN DDIBYNNOL AR NIFER CREDYDAU'R MODIWL:

- Ni ddylid cynnal mwy nag un arholiad heb ei weld fesul 10 credyd.
- Mewn modiwl 10 credyd a asesir trwy arholiad ac asesu dosbarth/prawf yn unig, ni ddylai'r arholiad a'r prawf (profion) gyda'i gilydd fod yn fwy na 2 awr fel rheol.
- Yn achos modiwl 10 credyd a asesir trwy asesiad parhaus ysgrifenedig yn unig, ni ddylai'r holl ddarnau o waith a gyflwynir gyda'i gilydd fod yn fwy na 25000 gair neu gyfwerth fel rheol.
- Pan asesir modiwl trwy gyfuniad o'r dulliau hyn dylid gostwng hyd y prawf (profion) a'r arholiad a chyfanswm geiriau'r asesiad parhaus i gyd-fynd â hyn.

Ceir rhagor o wybodaeth yn y Fframwaith Asesu

**Meini Prawf Asesu**

Fel isafswm dylai'r blwch hwn gynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'n rhaid i fyfyrwyr ei wneud neu ei arddangos er mwyn cyrraedd gwahanol lefelau perfformiad. Dylid llunio'r meini prawf marcio mewn ffordd sy'n hawdd i fyfyrwyr eu deall. Yn ddelfrydol, dylai fod gan bob modiwl ei feini prawf marcio penodol ei hun, ond rydym yn derbyn meini prawf marcio generig ar yr amod eu bod yn berthnasol i'r dulliau asesu.

RHAID SICRHAU BOD MARCIO CATEGORIAIDD YN GYSYLLTIEDIG Â PHOB LEFEL O BERFFORMIAD. BYDDWN YN DISGWYL GWELD Y TAIR LEFEL PERFFORMIAD CANLYNOL:

| | Israddedig | Ôl-radd |
|---|---|---|
| Rhagorol | 70%> -A | 70%> |
| Da | 50%> -B | 60%> |
| Trothwy | 40%> -D | 50%> |

**Goblygiadau o ran adnoddau**

Dylid darparu manylion yr adnoddau angenrheidiol, yn enwedig gwerslyfrau craidd, yma. Dylid cynnwys unrhyw gostau ychwanegol y gall myfyriwr eu hwynebu megis teithio, offer, teithiau maes neu rwymo dogfennau.

RHAID SICRHAU BOD YR ADNODDAU YN BERTHNASOL, A BOD YR ARGRAFFIADAU DIWEDDARAF YN CAEL EU RHESTRU.